**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**2/12/24**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Alwyn M Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Euros Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**Ymddiheuriadau:** Dim

**3108** **Croesawyd pawb** gan y Cadeirydd a llongyfarchwyd Bethan Edwards ar enedigaeth ei gor-ŵyr.

**3109** **Ymddiheuriadau -** neb

**3110** **Datganiadau o fuddiant** – 3118 Alwyn E Jones a Huw Antur

**3111** **Cofnodion** Cyfarfod Tachwedd 2024 **–** cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3112** **Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. T3c: Adroddodd Alwyn E Jones iddo fynychu cyfarfod cyhoeddus yn Y Bala gyda nifer yno yn mynegi eu hanfodlonrwydd gyda'r toriad i'r gwasanaeth. Dywedwyd na fydd y bws T3 yn aros wrth y garej oherwydd ei fod yn beryglus; mae hyn yn ddealladwy ond yn doriad pellach ar y gwasanaeth sydd ar gael i bobl Llanuwchllyn. Bu trafod ar y posibilrwydd o flexibus neu ganiatâd i fysiau ddod i faes parcio'r ysgol i godi teithwyr.
ii. Disgwylir Openreach i orffen y gwaith cysylltu yn ardal LL23 7ST cyn y Nadolig.
iii. Mainc: ar ôl tipyn o drafodaeth, penderfynodd y teulu a gysylltodd gyda'r Cyngor i beidio a gosod mainc er cof yn yr ardal.

**3113** **Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Mae swyddog o Gyngor Gwynedd wedi ymweld a safle biniau cymunedol ffordd Bryncaled, ac wedi nodi culfan sydd yn cynnig opsiwn arall. Mae'r Cynghorydd yn disgwyl y bydd y Swyddog yn llythyru tai gwyliau sy'n defnyddio'r safle heb ganiatâd.

Daeth y rhew yn gynnar eleni ond erbyn hyn mae pob bin halen yn llawn heblaw yr un wrth Garreg y Cawr sy'n denu sylw gwartheg.

Cafodd ateb gan Gyngor Gwynedd fod y draeniau gyferbyn á'r Slendai wedi eu clirio ac mai cyfrifoldeb yr Elusen yw'r draeniau ar ochr yr Elusen o'r ffordd.

**3114** **Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu – heb gyfarfod yn ddiweddar

2. Mynwentydd – Fe wnaeth y cwmni a ddefnyddiodd y maes parcio yn ystod y gwaith ar yr A4949 lenwi'r twll yn y maes parcio a gadael *planings* at ein defnydd. Bydd yr is-bwyllgor yn trafod y pris cyfartalog a dderbyniwyd ar gyfer adfer cerrig.
3. Bioamrywiaeth: adroddwyd o'r cyfarfod Awyr Dywyll a thrafodwyd y manteision o dywyllwch i drigolion yn ogystal ag i fywyd gwyllt. Cytunwyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i ddatgan fod y Cyngor yn awyddus i symud ymlaen gyda'r prosiect o greu pentref Awyr Dywyll.
4. Nadolig: Mae'r coed wedi eu gosod a'u haddurno gyda diolch i bawb a fu'n helpu. Mae'r trefniadau ar gyfer ymweliad Sion Corn mewn llaw.
5. Asedau: Gofynnwyd i saer lleol drwsio'r Hysbysfwrdd gyferbyn a'r Eglwys ac i roi sylw i'r meinciau. Bydd angen trwsio gwydr yr hysbysfwrdd hefyd. Cytunwyd i edrych a oes angen trwsio gwydr lloches Ty'n Ddôl. Wrth eu cadw o dan do, sylwyd fod angen trwsio'r meinciau. Cytunwyd ii ofyn i'r Saer roi pris mewn am hyn ac am adnewyddu'r ystyllod ar y fainc wrth y groesffordd.
6. Cyllid: Trefnir cyfarfod cyn diwedd y flwyddyn.

**3115** **Materion Ariannol:** Newidiwyd trydan y toiledau o *edf* i *British Gas* ond nid oes anfoneb wedi dod i law hyd yn hyn. Cymeradwywyd taliadau fel a ganlyn:

Cyflog y Clerc , CThEF, Cytundeb glanhau
CCF – nwyddau glanhau 45.58
HG Webb Designs – Gwefan 300.00
Cyfnod – Hysbyseb 40.33
Criw'r Wladfa 26.10
Dwr Cymru – toiledau 270.77

**3116** **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Mae gwelliannau yn cael eu gwneud i'r gegin yn Yr Eagles. Mae'r Fenter yn parhau i edrych ar yr anghenion am dai ac ar y tai sy'n dod yn wag.

Derbyniwyd gwybodaeth na fyddai creu mynedfa rhwng y bont a'r fynwent yn groes i reolau'r Parc, felly fe fydd angen creu cynllun manwl er mwyn symud ymlaen.

**3117** **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Mae sgaffaldau wedi eu codi er mwyn ail-doi a diogelu'r gragen a'r ffenestri yng Nghanolfan Bro Tegid.

**3118** **Cais cynllunio: NP5/71/T56D** Paneli solar ar Yr Eagles – cadarnhawyd cymeradwyaeth e-bost y Cynghorwyr. Nodwyd y bu i Alwyn E Jones a Huw Antur ddatgan diddordeb yn ystod yr ymgynghoriad.

**3119** **Gohebiaeth:** Nodwyd derbyn

i. Un Llais Cymru: tasgau allweddol i'r Cynghorau eu cyflawni.
ii. Un Llais Cymru: Arolwg Prifysgol Aberystwyth (Bydd y Clerc yn ateb).
iii. Cais am nawdd ariannol ar gyfer Eirys: bydd ymgynghoriad e-bost ar swm y cyfraniad ar ôl derbyn awgrymiadau gan y swyddogion.

**3120** **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:**

i. Tyllau yn y bontpren ar Lwybr Tegid: Mae Gwersyll Glan-llyn yn ymwybodol.
ii. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Alan Jones Evans geisio trefnu bod y palmant a'r ffordd yn cael eu brwsio ar ôl cwymp y dail.

**3121 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/1/25 am 8.00**

**Diolchwyd i'r Clerc, Lis Puw ac i'r Swyddog Ariannol, Bethan Edwards am eu gwaith a dymunwyd yn dda iddynt ar eu hymddeoliad.**